

YSGOL LLANHARI



Polisi Dysgu Cyfunol

1. Nod y polisi

Nod y polisi hwn yw amlinellu sut mae'r ysgol yn datblygu ei dulliau dysgu cyfunol ar draws yr ystod oed 3-19. Datblygodd yr angen i gynnig profiadau dysgu cyfunol i'r holl ddisgyblion yn ystod y cyfnod o bandeming yn 2020 ac ystyriwn bellach bod dysgu cyfunol yn arf ychwaengol i'r addysgwyr. Mae'r polisi hwn yn nodi sut rydym yn datblygu'r defnydd o dechnoleg i hybu'r dysgu a sut y dylid cyfuno hwn â'r dulliau addysgeg traddodiadol a amlinellir ym mholisi dysgu ac addysgu yr ysgol (addasiad 2017)

2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae datblygu'r defnydd o ddysgu cyfunol wedi bod yn rhan an-natod o raglen hyfforddiant staff ers mis Mawrth 2020 ar gychwyn y cyfnod clo. Mae'r athrawon wedi derbyn hyfforddiant cyson ers hyn ar yr agwedd ddigidol ac wedi elwa ar arbenigedd unigolion ar y staff sy'n barod i rannu arfer dda. Mae'n rhan bwysig o gynllun gwella'r ysgol a chynllun gwella'r adrannau yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o fagu hyder yr athrawon a disgyblion yn y defnydd o dechnoleg

Diffinir dysgu cyfunol isod :

- Dysgu wyneb yn wyneb yn y dosbarth
- Dysgu ar lein : gweithgareddau ar lein trwy blatfform HWB, gwersi wedi eu recordio, gwersi fflip, ffrydio byw
- Defnyddio gwर्सlyfrau ac adnoddau i weithio adref

Prif nod y polisi hwn yw ffocysu ar yr ail agwedd sef dysgu ar lein gan bod hwn yn fwy anghyfarwydd ar hyn o bryd yn Ysgol Llanhari i ddisgyblion a staff.

O fewn cyd-destun y sefyllfa bresennol gyda disgyblion a staff yn wynebu cyfnod o hunan ynysu neu salwch, gweithredwn yr isod yn yr adrannau cynradd ac uwchradd :

1. Os bydd **plentyn yn anhwylyd** ac yn aros gartref oherwydd salwch cyffredinol, ni fydd y staff yn darparu tasgau / gwaith iddynt - fel sydd wastad wedi digwydd o'r blaen pan fydd salwch. Y peth pwysig yw fod y plant yn gwella.
2. Os yw **plentyn** yn gorfod **aros gartref** i aros am ganlyniadau prawf (eu canlyniadau nhw neu aelod o'r teulu) bydd yr athrawon yn darparu tasgau ar Microsoft Teams / Google Classroom am y cyfnod hwnnw.
3. Os yw **plentyn** yn gorfod **hunan-ynysu** oherwydd COVID19, bydd yr athrawon yn darparu tasgau ar Microsoft Teams / Google Classroom am y cyfnod hwnnw. Dylid darganfod a yw'r disgybl yn ddigon iach i gwblhau'r gwaith yn y lle gyntaf.

4. Os yw **athro dosbarth / athro pwnc** yn gorfod bod **gartref** i aros am ganlyniadau prawf (eu canlyniadau nhw neu aelod o'r teulu) NEU'N gorfod hunan-ynysu oherwydd COVID 19 (ond yn teimlo'n ddigon iach i weithio), bydd yn addysgu'r dosbarth o gartref.
5. Os yw **dosbarth cyfan** yn gorfod aros **gartref** a hunan-ynysu oherwydd COVID19, bydd yr athrawon yn darparu tasgau ar Microsoft Teams / Google Classroom ac yn cynnal 'gwersi byw' lle bo'n briodol neu'n rhannu cyflwyniadau fideo/llais am y cyfnod hwnnw.

Ymhob achos, mae'n rhaid bod yn hyblyg ac ymateb i natur y sefyllfa. Manylir ar y pwntiau yma o ran yr adran gynradd yn benodol yn atodiad 4 sef *Canllaw Dysgu Cyfunol i staff yr Adran Gynradd*

3. Hyfforddiant Staff

Mae datblygu dulliau dysgu cyfunol yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac felly ymrwymir i hyfforddi staff yn gyson er mwyn cynnal a chodi safon y dysgu cyfunol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig. Ag eithrio bl11 a bl13 (am resymau ymarferol am flwyddyn yn unig) mae'r adran gynradd ac uwchradd yn defnyddio HWB fel platfform. Gwna'r athrawon cynradd ddefnydd o Google Classroom a'r adran uwchradd Microsoft Teams yn bennaf. Rydym yn monitro effaith (*impact*) yr hyfforddiant hwn trwy gyfrwng adborth disgyblion, rhieni ac athrawon ynghyd â samplu gwaith y disgyblion. Cydnabyddwn bod angen ystyried arsylwi yn y dyfodol wrth ffocysu ar ddatblygu ein dulliau dysgu cyfunol. Nodir ym mholisi dysgu ac addysgu yr ysgol sy'n canolbwyntio ar addysgeg mwy traddodiadol, ein bod yn ystyried bod arsylwi gwersi yn fanteisiol wrth gynnal a chodi safonau dysgu ac addysgu, am y rhesymau canlynol :

- Mae'n darparu cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol wrth rannu arfer dda
- Mae'n creu diwylliant o gyd-arsylwi er mwyn gwella y dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol ac felly yn gwella y dulliau o addysgu sy'n defnyddio technoleg
- Mae addysgu effeithiol yn golygu bod y disgyblion yn gwneud cynnydd wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau uchel
- Mae arsylwi yn arwain at drafodaeth broffesiynol ymhlith staff

4. Gweithredu yn ymarferol

Platfform Hwb

Ers Medi, mae'r holl ddisgyblion wedi bod yn defnyddio Hwb fel plattform ar gyfer Microsoft Teams a Google Classrooms. Mae athrawon CA2-CA5 wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gan y disgyblion fynediad i Hwb a'u bod yn deall :

1. Sut mae cael mynediad i ddeunyddiau gan yr athro
2. Sut mae uwchlwytho gwaith i'w asesu
3. Sut mae gweld adborth gan athro
4. Sut mae defnyddio posts a chat (Microsoft Teams) a stream ar Google.

Yn y Cyfnod Sylfaen, defnyddir Google Classroom i osod tasgau ac i rannu gwybodaeth â rhieni / gofalwyr, Disgwylir iddynt gwblhau tasgau a osodir yn uniongyrchol neu i uwchlwytho tystiolaeth arall e.e.llun neu fideo. Mae athrawon CA2-CA5 yn defnyddio Teams / Google Classrooms er mwyn gosod gwaith cartref a thasgau asesu ac yn cynnig adborth yn electronig i'r disgyblion. Pwysleisir mai asesu ffurfiannol sydd fwyaf effeithiol wrth adrodd nôl ar waith yn *assignments*.

Disgwyliadau

Gweler atodiad 1 am y protocol dysgu cyfunol. Cyfeirir at ddisgwyliadau pan fo staff a disgyblion yn hunanynysu a'r angen i weithredu dulliau dysgu cyfunol o fewn gwrs. Cyfeirir at ddisgwyliadau aelodau o staff, disgwyliadau disgyblion a disgwyliadau rhieni. Mae cyfathrebu cyson a chlir gyda rhieni yn hanfodol fel eu bod yn deall yr hyn sy'n bosib a'r hyn sy'n ddisgwyliedig (gweler atodiad 2). Lle bo hynny'n briodol e.e. wrth osod gwaith i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen, dylid nodi cyfarwyddiadau yn ddwyieithog.

Ffrydio byw a fideo gynadledda

Mae'r ysgol yn dilyn dogfen arferion ac egwyddorion diogelu y Llywodraeth (Medi 2020) wrth gynllunio sesiynau ffrydio byw neu fideo gynadledda (cyfeirir at hyn fel gwrs fyw). Noder y pwyntiau allweddol isod :

1. Mae athrawon yn cynnal sesiynau ffrydio byw neu wersi byw yn wirfoddol – rhaid esbonio hyn i rieni
2. Bydd MES yn cadw cofnod canolog o sesiynau byw. Mae'n hanfodol gwneud hyn.
3. Mae gwrs sydd wedi ei ffrydio yn fyw yn cynnig hyblygrwydd gan fod modd cael gafael ar wers ar adeg cyfleus. Os yn gwyllo'n fyw mae'n bosib i ddisgybl rhyngweithio trwy ddefnyddio'r blwch testun
4. Dylai sesiynau byw gael eu cynnal trwy blatfform Hwb ar Teams neu Google Meet
5. Dylid defnyddio dyfais sydd wedi'i darparu gan yr ysgol
6. Dylid dilyn polisi diogelu'r ysgol wrth gynnig gwrsi ar lein
7. Dylai bob disgybl fod yn ymwybodol ac yn deall cytundeb gwrsi byw yr ysgol (gweler Atodiad 2)
8. Dylai pob athro gadw cofrestr o ddisgyblion sy'n mynychu gwrs fyw.
9. Os nad yw disgyblion yn ymgysylltu, mae'n rhaid i athro hysbysu yr ASC perthnasol er mwyn canfod y rhesymau dros beidio ag ymuno â gwrs fyw
10. Os yw athro yn cynnal gwrs o'i g(ch)artref, dylai newid y cefndir.

11. Pan yn cynnal sesiwn ar lein y tu allan i'r ysgol, rhaid bod o leiaf dau aelod o staff yn bresennol. Nid oes rhaid cael dau aelod o staff yn bresennol yn yr ysgol ond dylid recordio y sesiwn i ddiogelu'r dysgwyr a'r staff. Os yn recordio mae'n rhaid gwneud pob dysgwr yn ymwybodol o hynny ar ddechrau'r recordiad.
12. Ni ddylid cynnal sesiwn fyw gyda dim ond un athro ac un disgybl yn bresennol

Mewn achosion o ddisgyblion yn hunanynysu ar gais yr ysgol, mae'n rhaid blaenoriaethu unigolion o ddsbarthiadau arholiad yn yr uwchradd ar gyfer cynnal gwersi byw. Lle bo blwyddyn gyfan neu ddsbarth yn hunanynysu, trefnir amserlen ar gyfer gwersi byw neu ffrydio byw. Ni fydd pob gwers yn wers ag elfen fyw iddi. Disgwylir bod disgyblion yn cwblhau tasgau a osodir iddynt ar Teams / Google Classrooms. Mae'r gwersi byw i ddigwydd lle bo'n briodol ac ymarferol gwneud hynny.

Creu adnoddau

Mae'r athrawon uwchradd yn gosod tasgau i'w hasesu trwy *assignments* ac adnoddau yn *files* ar Microsoft Teams. Gwelwyd bod defnyddio'r canlynol yn effeithiol wrth fynd ati i greu adnoddau :

- i. Siarad dros gyflwyniadau pwerbwynt (voiceovers)
- ii. Clipiau fideo yn esbonio tasgau (yn yr adran gynradd gellir uwchlwytho'r cyflwyniadau i youtube)
- iii. Cyflwyniad ble mae athro yn siarad tra'n ysgrifennu ar bapur/sgrîn/bwrdd gwyn, e.e. 'Show Me'
- iv. Active presenter
- v. Screencastify
- vi. Loom
- vii. Flipgrid
- viii. Adobe spark
- ix. Gymkit
- x. Cwisiau – forms, quizziz, mentimeter, kahoot, quizlet
- xi. Teachvid

Monitro'r Dysgu Cyfunol ar draws yr ysgol 3-19 oed

Mae'r Tîm Arwain yn :

- Sicrhau bod yr holl staff wedi eu hyfforddi'n berthnasol yn unol â'u cyfrifoldebau
- Hyrwyddo dulliau dysgu cyfunol ysgol gyfan sydd yn annog brwdfrydedd dysgu a gwelliant parhaus ymysg disgyblion.
- Monitro agweddau at ddysgu cyfunol ar draws yr ysgol ar lefel pwnc, grŵp blwyddyn a dulliau eraill o grwpio disgyblion.
- Monitro cyrhaeddiad ar draws yr ysgol, fesul pwnc a grwpiau o ddisgyblion.

- Gwerthuso canfyddiadau a datblygu dulliau parhaus i wella agweddau a chyrhaeddiad.
- Gweithredu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu rheolaidd o'r polisi a'r strategaethau.
- Monitro effeithiolrwydd addysgu sy'n defnyddio dulliau dysgu cyfunol ac ymyrryd pan fo safon yr addysgu yn is na'r safon ddisgwyliedig.

Rôl yr Arweinwyr Pwnc ac Arweinwyr Cyfnod

- Dangos arweiniad i staff yn y pwnc/cyfnod ym mhob agwedd o'r gwaith.
- Creu ethos o fewn yr adran lle mae sylw cyson yn cael ei roi i drafod materion dysgu cyfunol.
- Monitro a gwerthuso agweddau a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion o fewn y pwnc/cyfnod a gweithredu ar y canfyddiadau.
- Ymyrryd pan fo safon y ddarpariaeth dysgu cyfunol yn is na'r disgwyl.
- Sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi'n berthnasol yn y strategaethau dysgu cyfunol perthnasol
- Cefnogi staff i greu amodau ar gyfer dysgu da.
- Arwain yr adran / cyfnod i greu cynlluniau gwaith/gwersi sy'n adlewyrchu gofynion yr ysgol o ran arfer dda dysgu cyfunol
- Defnyddio gweithdrefnau Rheoli Perfformiad a hunanwerthuso'r ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad athrawon o fewn y pwnc / cyfnod
- Monitro gwaith disgyblion wrth ddilyn rhaglen monitro'r ysgol, gan lenwi'r taflenni priodol a'u trafod gyda'r ACTA

Meinir Thomas (Dirprwy Bennaeth)
 Marc Evans (Pennaeth Cynorthwyol)
 Cath Webb (Pennaeth Cynorthwyol)
 Hydref 2020